Dyletswyddi – mis Chwefror
Cyhoeddi : Dai
Drws : Matthew

capelsalem.org

SALEM

CYHOEDDIADAU MIS CHWEFROR

Casgliad hen stamplau yn y cyntedd

Oedfaon y Sul

Am 10:30 y bore a 6:00 yr hwyr.
Ysgol Sul yn y bore wedi i'r plant a'r ifanc gyfrannu i rannau arweiniol yr Oedfa foreol.

Chwefror 7fed	**Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail** *Bedydd Iolo a Branwen, gefeilliaid Lowri a Garmon* **Gwasanaeth cymun gyda'r hwyr**	Casglyddion: Bethan, Geraint Megan ac Owain	Te a choffi: Matthew
14eg	**Parch. Dafydd H. Edwards** **Dim ysgol Sul**	Y Blaenoriaid	-
21ain	**Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail**	Nia, Gwenno a Dyfan Goode	Pobl Ifainc
28ain	**Parch. D. Haydn Thomas**		-
Mawrth 7fed	**Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail** *Bedydd Rhiannon, merch Ian ac Elen* **Dewch i ddathlu ein nawddsant ac i ddiolch amdano - croeso i'r plant wisgo i fyny ar gyfer Gŵyl Ddewi.** ***Cawl ar ôl oedfa'r bore - elw at yr estyniad*** **Gwasanaeth cymun gyda'r hwyr**	Sara a Siôn Roberts, Will a Nia	Pawb!! (gweler isod)

Cyfarfodydd yn ystod yr Wythnos

Nos Fawrth	**2il**	**8:00pm**	**Clwb Llyfrau Salem yn y Mans: llyfr "Resistance" gan Owen Sheers, o ddewisiad Eleri Rogers – gohiriwyd o lonawr; bydd pob un nawr yn fis yn hwyrach na'r amserlen gwreiddiol.**
Bore Mercher	**3ydd**	**9:45am**	**Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin**
Nos Wener	**5ed**	**7:30pm**	**Clwb Bobl Ifainc – naill ai DVD a Sglods, neu trip i'r sinema !!**
Nos Fawrth	**9fed**	**7:30pm**	**Cwrdd Blaenoriaid**
Nos Fercher	**10fed**	**7:30pm**	**Y Gadwyn – Panel Holi: ar y panel - Dafydd Parri, Ruth Parry, Ion Thomas a'r Parch Dafydd Owen.** ***(Bydd angen eich cwestiynau o flaen llaw - rhowch nhw i Evan, plîs)***
Nos Iau	**11eg**	**8:00pm**	**C.I.S. - Cyfeillion 'Iau' Salem – bwffe yn yr Oriental Garden yng Nghanolfan Red Dragon yn y Bae; enwau i Evan, plîs.**
Dydd Gwener	**12fed**	**11:00am tan 12:00**	**Clwb Coffi yn Ystafell Edwin. Croeso i bawb sy'n rhydd yn ystod y bore i ymuno â ni am goffi a sgwrs a chwmniaeth**
Nos Lun	**22ain**	**7:30pm**	**Y Gell Weddi yn y Mans**
Nos Iau	**25ain**	**7:30pm**	**Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd – Myfyrdod y Grawys 1 – yng Nghapel Salem o dan arweiniad Dafydd Andrew Jones**

Rhaghysbysebion

Mis Mawrth			
Nos Fawrth	**2il**	**8:00pm**	**Clwb Llyfrau Salem yn y Mans: llyfr o ddewisiad Myrddin Hughes.**
Bore Mercher	**3ydd**	**9:45am**	**Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin**
Nos Fercher	**3ydd**	**7:30pm**	**Y Gadwyn – Swper Gŵyl Ddewi - yn y Mochyn Du, Gerddi Soffia; Gwraig gwadd – Caryl Parry Jones: bydd rhestr yn y cyntedd i lanw fel arfer.**
Dydd Sul	**7fed**	**11:30am**	***Byddwn yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau caws, bara, ac ati***
Nos Iau	**11eg**	**7:30pm**	**C.I.S. - Cyfeillion 'Iau' Salem – noson blasu gwîn, yng ngofal Haf Hayes a Geraint Cynan.**
NOS IAU - MAWRTH 18FED, 2010 - CYNGERDD MAWREDDOG YN SALEM - FOUR CHOIRS STANDING – RHOWCH Y NOSON I LAWR NAWR - CÔR CANNA, CÔRDYDD, BECHGYN BRO TAF, CÔR Y MOCHYN DU!!! ***Tocynnau ar werth ar 7fed Chwefror – oedolion £7, plant £3;*** ***byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn fodlon mynd â thocynnau i werthu, os gwelwch yn dda.***			
Dydd Sul	**21ain**	**2:30pm**	**Bwydo'r di-gartref – festri Tabernacl yr Aes – Tîm Enyd**

APÊL – Mae bocs yn y cyntedd ar gyfer ffoaduriaid. Rydym yn casglu gwahanol fathau o nwyddau amdanynt, bydd yn newid yn fisol. Bydd y bocs yn cael ei wacáu ar ddiwedd pob mis. **Mae eisiau: bwydydd sych; sudd ffrwythau bywyd hir (long life fruit juice!); pasta; tiwna;** diolch yn fawr.

RHESTR BLODAU A THE A CHOFFI – **byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn fodlon gwirfoddoli i ddarparu blodau i'r Capel, neu i wneud te a choffi ar y Suliau cyntaf a thrydedd. Mae'r rhestr blodau yn y cyntedd. Dwedwch wrth Siwan Matthews os ydych yn fodlon trefnu'r te a choffi. Diolch yn fawr!!**

Diolch i chi i gyd am eich haelioni – casglwyd £800 tuag at apêl Haiti !!